

Rhaglen Gyflawn



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

Dyddiad ac Amser

11.00 y.b., DYDD GWENER, 14EG MAI, 2021

Lleoliad

Zoom

Pwynt Cyswllt

Natalie Lloyd Jones

01286 679490

NatalieLloydJones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Sadwrn, 8 Mai 2021)

IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Robert G Parry
Greg Robbins
Gareth Wyn Griffith
Brian Jones
David Bithell
Carolyn Thomas

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir y Fflint

Aelod Cyswllt o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Cynghorydd Ian Roberts

Cyngor Sir y Fflint

Swyddogion yn bresennol

Emlyn Jones
Huw Percy
Geraint Edwards
Darren Williams
Stephen Jones
Dafydd Wyn Williams
Iwan Prys Jones

Iwan G. Evans
Dafydd L. Edwards

Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Bwrdd Uchelgais Economaidd
Gogledd Cymru
Swyddog Monitro
Swyddog Adran 151

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 10

I gadarnhau cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020.

5. DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD AR WAITH BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU A'R GRŴP TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL 11 - 15

Rhoi diweddariad i Aelodau ar waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Y Bwrdd Uchelgais) a'r Grŵp Trafnidiaeth Rhanbarthol.

6. DIWEDDARIAD BYSIAU RHANBARTHOL AC METRO GOGLEDD CYMRU 16 - 22

Rhoi cyflwyniad a diweddariad i Aelodau ar gynnydd Trafnidiaeth Cymru ar waith sy'n cael ei wneud ar Adolygiad Rhwydwaith Bws Cenedlaethol Cymru.

Rhoi cyflwyniad a diweddariad i Aelodau ar gynnydd Trafnidiaeth Cymru ar sy'n cael ei wneud ar brosiectau o fewn Metro Gogledd Cymru.

7. EITEM ER GWYBODAETH - DATGARBONEIDDIO TRAFNIDIAETH A DIWEDDARIAD HWB HYGROGEN 23 - 33

Darparu trosolwg o brosiect Hwb Hydrogen Caergybi o ran y cynnydd hyd yma ac amlinellu'r camau nesaf yn natblygiad y prosiect.

Diweddarau'r Aelodau ar y cynnydd gyda datblygu cynigion prosiect ar prosiectau trafndiaeth carbon isel a di-garbon yn y Gogledd.

IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH 7 Rhagfyr, 2020

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cyngorwyr - David Bithell (Cyngor Wrecsam), Robert G Parry (Cyngor Ynys Môn), Greg Robbins (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Gareth Wyn Griffith (Cyngor Gwynedd), Brian Jones (Cyngor Sir Ddinbych) a Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint)

Swyddogion yn Bresennol – Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Huw Percy (Cyngor Ynys Môn), Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Stephen Jones (Cyngor Sir y Fflint), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Iwan G D Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Arweiniol), Peter Daniels (Cyngor Sir Ddinbych) ac Einir Rh Davies (cofnodion – Awdurdod Arweiniol)

Eraill a wahoddwyd - Iwan Prys Jones (Bwrdd Uchelgais Economaidd), Lee Robison (Trafnidiaeth Cymru), Dewi Rowlands (Llywodraeth Cymru), Claire Germain (Llywodraeth Cymru), Kate Clark (Llywodraeth Cymru) a David Willis (Llywodraeth Cymru)

1. YMDDIHEURIADAU

Nodwyd bod y Cyngorydd David Bithell a Darren Williams yn cael trafferth ymuno a'r cyfarfod oherwydd problemau technegol. Cymerodd Y Cyngorydd Robert G Parry y Gadair at gyfer eitemau 1, 2, 3, 4, 5 a 6.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYG

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryg i'w drafod.

4. COFNODION

Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar y 14 Medi 2020 fel rhai cywir ac fe'i cynigiwyd ac eiliwyd.

5. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

6. YMGYNGHORIAD CYD BWYLLGOR CORFFORAETHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr eitem gan Iwan G D Evans – Swyddog Monitro yr Awdurdod Arweiniol.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWDYD derbyn y wybodaeth yn y papur, gan mai papur ydoedd i hysbysu'r Is-Fwrdd o'r ymgynghoriad sydd ar y gweill.

TRAFODAETH

Nododd Y Swyddog Monitro mai diben yr eitem oedd hysbysu yr Is-Fwrdd o'r ymgynghoriad sydd ar y gweill.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y papur roedd wedi ei baratoi oedd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd ar gynigion i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforedig (CBC) fesul 4 Ardal o Gymru ar sail ôl troed (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru).

O fewn y Bil, mae dau gategori o CBC sef CBC drwy Orchymyn a CBC drwy Gais. Cyfyngir y meysydd posib ar gyfer CBC Drwy Orchymyn ar gyfer 4 maes sef gwella addysg, trafnidiaeth (Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol), y swyddogaeth o lunio Cynllun Datblygu Strategol a'r swyddogaeth llesiant economaidd.

Cadarnhawyd bod CBC yn gyrrff corfforedig ar wahân, sydd yn cael eu sefydlu drwy Gynghorau - hynny yw, yn gorfforaeth ar eu traed eu hunain, ac yn bodoli lled ar-wahân i Gynghorau.

O ran y maes trafnidiaeth, cadarnhawyd yr aelodaeth fandadol fel chwe Arweinydd Cynghorau Gogledd Cymru (gyda hawl i gyfethol). Nodwyd y byddai yr opsiwn ar gael yma i sefydlu Is-bwyllgorau.

O ran materion cyllid ac ariannu, cadarnhawyd mai y cynghorau, drwy gytundeb, sydd yn ei ariannu, ynghyd a threfnu materion craffu ac awdit, eto drwy gytundeb.

Codwyd y cwestiynau canlynol o'r drafodaeth :

- Beth fydd y berthynas ffurfiol gyda yr Awdurdodau?
- O ran materion megis craffu, cod ymddygiad ac ati, o dan ba drefniant fydd y materion hyn yn disgyn?

Diolchwyd am yr adroddiad ac derbyniwyd sylwadau fel a ganlyn :

- Bydd CBC yn mynd a phwerau oddi ar y Cynghorau. Nodwyd bod swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes wedi cysylltu gyda rhai Aelodau o'r Is-Fwrdd, gan nodi mai cerbyd ydyw hwn i Lywodraeth Leol siapio y gwaith ac adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud
Atgyfnerthwyd y pwynt mai cryfhau y sefyllfa, a chynnwys Aelodau yw'r bwriad, gan roi cyfle iddynt rannu eu barn yn llawn, ac yn onest ar y rheoliadau drafft hyn.
- Sut mae Trafnidiaeth Cymru a'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn ffitio i mewn?
Bydd apwyntio swyddogion yn bryder, yn enwedig o ddarllen y bydd y rolau yn cymryd 1-5 diwrnod o amser swyddog.
Onid oes camsyniad yma y bydd yn arbed arian? Erbyn hyn nid oes gan gynghorau swyddogion sydd yn dyblygu gwaith.
Sut byddent yn cael eu hariannu?
Mae rhoi y pŵer i'r Awdurdodau Lleol i redeg eu trafnidiaeth bws eu hunain yn anodd iawn heb arbenigedd lleol.
Nodwyd pryder hefyd am faterion llywodraethu.
Ymatebodd Swyddog Llywodraeth Cymru gan gadarnhau mai yr unig swyddogaeth sydd yn cael ei drosglwyddo i'r CBC yw y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a bod y gweithgareddau o

gwmpas bysiau yn aros gyda yr Awdurdodau Lleol, ac mai dewisol fyddai symud swyddogaethau eraill drosodd.

O ran Trafnidiaeth Cymru, cadarnhawyd mai corff danfon ydyw, ac y byddai yn ffitio i mewn ym mhle byddai y CBC yn dymuno iddo ffitio i mewn.

Nododd y Swyddog Trafnidiaeth Cymru bo Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno i set o egwyddorion a'u bod yn eistedd gydag Arriva i'w cytuno. Cadarnhaodd mai rôl Trafnidiaeth Cymru mewn CBC fyddai cefnogi CBC, cynllunio rhwydweithiau, ymdrin a materion talu digyswllt ac ati.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn pontio dau CBC.

Ymhellach, byddai angen sgwrs ynglŷn â'r angen am swyddogion a sut byddent yn cael eu trosglwyddo.

Yn ychwanegol, o ran rôl a swyddogaethau CBC, mae modd i gynghorau ofyn i drosglwyddo rhai pethau eraill, ond yr hyn sydd ddim yn glir ar hyn o bryd yw lle mae yr hawl a'r gallu o ran datblygu CBC yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw at y canlynol :

Mae yr ymgynghoriad yn cau ddechrau Ionawr 2021 a bwriedir i'r CBC cyntaf fod yn weithredol erbyn Medi 2021. Mae rhai Awdurdodau Lleol eisoes wedi trefnu gweithdai er mwyn diweddarau ei aelodau.

Byddai hawl gan y chwe Arweinydd fyddai yn eistedd ar y CBC apwyntio eraill ar y Pwyllgor.

Cytunwyd bod angen adborth rhanbarthol o'r awdurdodau unigol ynghyd ag unrhyw sylwadau mewn e-bost at Iwan Prys Jones a David Bithell.

Gofynnwyd am unrhyw sylwadau pellach gan yr Aelodau Cabinet cyn symud ymlaen :

- Teimlwyd bod angen gweithio tuag at CBC neu drefniant ffurfiol rhanbarthol gyda Trafnidiaeth Cymru uwch ben, ac o dan yr un ymbarél : mae angen dod o hyd i ffordd ymlaen. Teimlwyd bo cyfle yma i amddiffyn yr agwedd cefn gwlad petai pawb yn cydweithio.
- Nodwyd y pryder bod y CBC yn cymryd gwaith oddi ar Awdurdodau Lleol, ond teimlwyd nad oedd fawr o ddewis ond symud ymlaen
- Mynegodd un nad oedd o blaid CBC, ond nododd os oedd rhaid gwneud, yna dylid ei wneud ar y termau mwyaf ffafriol.
- Nododd Aelod Cabinet arall nad oedd yn rhy hapus fel mae gwybodaeth yn cael ei rollo allan, ac o ganlyniad y pryder oedd ganddo nad oedd llun clir ar gael o'r materion angenrheidiol. Nododd nad oedd yn teimlo fod y modd roedd CBC i'w ariannu yn glir. Mynegodd nad oedd yn hapus gyda y broses a bod yr amserlen gyda dyddiad cau ddechrau Ionawr 2021 yn siomedig.

Cwestiynwyd hefyd faint o fewnbwn Trafnidiaeth Cymru fyddai yn hwn?

Onid ddylid cyllido ar ffurf y pen?

A fydd un Awdurdod yn arwain?

Yn ychwanegol holiwyd am argaeledd cyllid i ddatblygu Cynllun Strategol

I gloi cwestiynwyd yr union aelodaeth a hawliau phleidleisio.

Cytunwyd y byddai Iwan Prys Jones yn casglu y pwyntiau a godwyd a'i cylchredeg i Aelodau Cabinet cyn gynted a phosib gan fod yr ymgynghoriad hwn ar y gweill.

Diolchwyd i Swyddogion Llywodraeth Cymru, gan annog Awdurdodau Lleol i ymateb i'r ymgynghoriad.

Cymerodd Swyddogion Llywodraeth Cymru y cyfle i roi cyflwyniad ar Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru, ac yn arbennig datblygiadau o ran technoleg. Cadarnhawyd bo COVID wedi dod a llawer o sialensiau, ac o hynny golwg newydd ar ddanfon trafnidiaeth yng Nghymru.

Cyfeiriwyd at faterion yr amgylchedd, lleoedd a'r economi, trafnidiaeth, pobl a chymunedau a diwylliant a'r iaith Gymraeg ynghyd a'r allrydiau o ran yr amgylchedd.

O ran yr heriau a chyfleoedd nodwyd COVID-19, teithio llesol, gwledig/trefol, cerbydau trydan, ôl-groniad cynnal a chadw, cynllunio a thrafnidiaeth a hygyrchedd a hyder.

Soniwyd hefyd am hierarchaeth teithio gynaliadwy ynghyd a strategaeth ar dudalen.

O ran y weledigaeth nodwyd yr angen am sustem drafnidiaeth gynaliadwy a hygyrch, gyda phedwar uchelgais tymor hir

- Dod dros y rhwystrau
- Bod yn dda i'r amgylchedd
- Arloesi wrth weithredu
- Diwylliant a'r iaith Gymraeg

Cyfeiriwyd hefyd ar y Cynllun 5-Mlynedd fer ble bwriedir :

- Cynllunio ar gyfer gwell cysylltedd
- Cynyddu defnydd o'r sustem drafnidiaeth gyhoeddus
- Seilwaith trafnidiaeth ddiogel a hygyrch a gaiff ei reoli a'i gynnal a'i gadw'n dda
- Gwneud dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy
- Cefnogi arloesedd

Bwriedir mesur

- Effaith ar bobl a chymuned
- Effaith ar yr amgylchedd
- Effaith ar leoedd a'r economi
- Effaith ar ddiwylliant a'r Gymraeg

Bwriedir ei gyflawni drwy wneud

- Penderfyniadau buddsoddi gwell
- Cynlluniau cyflawni a gwaith thematig
- Weitio mewn partneriaethau
- Diweddarau polisïau a deddfwriaeth
- Dwyn ein hunain a'n partneriaid i gyfrif

Cyfeiriwyd hefyd at y Naw Cynllun Bach

- Teithio Llesol
- Bysiau

- Rheilffordd
- Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio
- Trydydd Sector
- Tacsis a CHP
- Llwythau a logisteg
- Porthladdoedd a morwrol
- Hedfan

I gyd yng nghyd-destun Pum Ffordd o Weithio Cenedlaethau'r Dyfodol

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

Yn dilyn y cyflwyniad, anogwyd Awdurdodau Lleol i gyd i ymateb i'r Ymgynghoriad erbyn 25/1/21.

Diolchwyd am y cyflwyniad

7. **DIWEDDARIAD BYSIAU RHANBARTHOL**

Cyflwynwyd y diweddariad gan Lee Robinson – Trafnidiaeth Cymru

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth oedd yn diweddarau'r Aelodau ar ddatblygiadau diweddar mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol a chyda chyllid parhad y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau mewn perthynas ag effeithiau pandemig Covid 19.

TRAFODAETH

Cadarnhawyd, oherwydd COVID bo Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gydag ymgymerwyr bysiau gan edrych ar ffyrdd newydd o gyllido ac ystyried pa lwybrau maent yn eu rhedeg. Cyfeiriodd hefyd ar y scheme Argyfwng Bysiau, gan gadarnhau bo sgwrs gydag ymgymerwyd ar y gweill ar gyfer 8/12/20, ond bod cyfyngiadau amser oherwydd COVID.

Cyfeiriodd at y Cytundeb Partneriaeth i drafod llwybrau a'r agenda carbon, ond cadarnhaodd bod yr ymgymerwyr yn gweld y drafodaeth yn unochrog.

Rhododd y Swyddog gyflwyniad ar Ddiwygio a Dyluniad Rhwydwaith Bysiau gan gadarnhau y byddent yn gweithio mewn pedwar rhanbarth Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Ddwyrain Cymru a De Orllewin Cymru.

Atgoffodd yr Is-Fwrdd eu bod wedi comisiynu darn o waith i edrych ar wyth mater penodol ar gyfer y rhanbarth a chytunodd i rannu y cyflwyniad.

Gofynnwyd am unrhyw sylwadau pellach gan yr Aelodau Cabinet cyn symud ymlaen :

Mae gwahaniaeth rhwng cefn gwlad a threfol ond mae pob Sir yma yn bresennol yn wahanol. Mae twristiaeth yn bwysig iawn, ac mae angen cael y neges honno ar draws. Sylwyd bo gwaith wedi ei ffocysu o gwmpas hybiau trefol metro - mae rhai llwybrau craidd yn gallu bod yn rhai trefol i drefol a chwestiynwyd ble mae hyn yn gweithio, sut mae modd mesur gwerth cymdeithasol a gwerth economaidd? Gofynnwyd i Drafnidiaeth Cymru beidio ag anghofio am y boblogaeth hyn wrth wneud unrhyw waith ymgynghori gan gofio nad ydym yn byw mewn cyfod arferol, cynrychiadol.

Gofynnwyd am ystyriaeth hefyd i sut mae cyllido addysg yn cysylltu, ynghyd a chyllido gofal iechyd cymdeithasol.

Nododd swyddog o Lywodraeth Cymru ei fod yn annog materion cefn gwlad yn y gymuned, ynghyd a phwysigrwydd cynllunio y rhwydwaith gan ystyried pobl mewn cymunedau.

Cytunwyd y byddai Iwan P Jones, fel paratoad i'r cyfarfod oedd wedi ei drefnu ar gyfer 18/1/21, yn cysylltu i geisio barn ar faterion bysiau.

8. **ADRODDIADAU GWYBODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiadau gan Iwan Prys Jones

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau gwybodaeth oedd yn rhoi diweddariad ar waith cyfredol ledled y rhanbarth gan edrych ar sut ellir trosglwyddo fflyd y sector cyhoeddus i fod yn fflyd allyriadau tra isel.

TRAFODAETH

Ni fu trafodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 10:10 am a daeth i ben am 12.05 pm..



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

DYDDIAD: 14 Mai 2021

Teitl: Diweddariad y Cadeirydd ar Waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Y Bwrdd Uchelgais) a'r Grŵp Trafnidiaeth Rhanbarthol

Awdur: Y Cyngorydd David A Bithell

1. Pwrpas yr Adroddiad

Rhoi diweddariad i Aelodau ar waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Y Bwrdd Uchelgais) a'r Grŵp Trafnidiaeth Rhanbarthol.

2. Y Penderfyniad a Geisir

Gwahoddir aelodau i nodi'r diweddariad a'r camau gweithredu o'r cyfarfod gydag Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais, ac Iwan Evans, Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd.

3. Rhesymau dros y Penderfyniad

Yn bennaf, adroddiad er gwybodaeth yw hwn ac nid oes angen gwneud penderfyniad ffurfiol o ganlyniad i'r adroddiad.

4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

Gwnaed cais am ddiweddariad gan Gadeirydd y Bwrdd Uchelgais.

5. Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol yn sgil yr adroddiad hwn.

6. Goblygiadau Cyfreithiol

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o'r adroddiad hwn.

7. Goblygiadau Staffio

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio o'r adroddiad hwn.

8. Effaith ar Gydraddoldeb

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn.

9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

Nid oes angen unrhyw ymgynghoriadau penodol ar y cam hwn.

10. Atodiad

Atodiad 1 – Nodiadau'r cyfarfod gydag Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais ac Iwan Evans, Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro – corff atebol:

Roeddwn yn croesawu y cyfle I gyfarfod a'r Cadeirydd i drafod agweddau o waith a chyfansoddiad yr Is Fwrdd. Wedi mabwysiadu Cytundeb GA2 sydd yn ymgorffori ei gylch gorchwyl dyfodiad Cyd Bwyllgorau Corfforaethol gyda swyddogaethau penodol iawn mae'n amserol ystyried lle mae'r Is Fwrdd yn eistedd yn y fframwaith newydd yma.

ii. Pennaeth Cyllid – corff atebol:

Deallaf fod yr adroddiad cynnydd hwn gerbron er gwybodaeth, felly does gen i ddim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Trafnidiaeth Rhanbarthol – nodiadau cryno o'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau, 15 Ebrill

Crynodeb o'r cyfarfod

Amlinellodd Alwen fel a ganlyn:

- Rhoddwyd ffocws ar raglenni dan nawdd y Cynllun Twf dros y 12 mis diwethaf. Y rhaglenni hyn yw Digidol, Tir ac Eiddo, Ynni Carbon Isel, Arloesedd mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel a Bwyd-amaeth a Thwristiaeth. Llofnodwyd y Cynllun Twf ar 17 Rhagfyr 2020.
- Dwy raglen strategol a nodwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, ond nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Cynllun Twf, yw Trafnidiaeth Rhanbarthol a Sgiliau a Chyflogaeth. Mae'r rhain yn ddwy raglen o bwys ac mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn awyddus i weithio â'r rhan-ddeiliaid rhanbarthol i fapio'r ffordd ymlaen. Mae'r cyfarfod hwn yn hwyluso'r drafodaeth gyntaf â'r Cynghorydd Bithell fel cadeirydd yr Is-fwrdd Trafnidiaeth.

Rhoddodd y Cynghorydd Bithell grynodedb o weithgarwch yr is-fwrdd dros y deuddeg mis a fu:

- Mae'r is-fwrdd wedi cwrdd ar bedwar achlysur yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi aeddfedu llawer fel is-fwrdd ers iddo gael ei sefydlu ac mae wedi cael cefnogaeth, gyda mewnbwn da i'r bwrdd, gan Iwan Prys Jones.
- Ystyriwyd adroddiadau a chyflwyniadau amrywiol yn ystod y flwyddyn gyda'r is-grŵp yn rhoi adborth i gyrrff perthnasol ac yn gwneud argymhellion fel bo'r angen, er enghraifft, bu i'r is-fwrdd argymhell i Trafnidiaeth Cymru fynd ati i baratoi Memorandwm o Ddealltwriaeth ynghylch sut mae'r rhwydwaith bws yn gweithredu. Gwnaed awgrym uniongyrchol i'w Prif Weithredwr, James Price, y dylai'r Memorandwm o Ddealltwriaeth gael ei rannu gydag aelodau cabinet ledled Gogledd Cymru.
- Ynghyd ag ystyried Gogledd Cymru, mae'r is-fwrdd wedi cynnal ei berthynas â Growth Track 360 a'r rhaglen drawsffiniol ehangach ar gyfer trafndiaeth.
- Mae'r Gweinidog Ken Skates AS wedi mynychu dau o'r cyfarfodydd pan drafodwyd y strategaeth trafndiaeth genedlaethol.
- Mae datgarboneiddio trafndiaeth a'r dull rhanbarthol ar gyfer gwefru cerbydau trydan yn thema gynyddol sy'n cael ei hystyried gan yr is-fwrdd ac mae adroddiadau wedi'u derbyn ar Hydrogen ac Ynni Carbon Isel.

Y Cyd-bwyllgor Corfforaethol

Pan fydd yn cael ei sefydlu, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn gyfrifol am gynllunio trafndiaeth strategol. Mae gwaith ar y gweill yn y rhanbarth i ystyried sut fydd strwythur a grym y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn gweithio ar draws ardaloedd yr awdurdodau lleol. Nodwyd yn ystod y cyfarfod y dylai trafodaethau barhau fel a phan y byddai'r dull o sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi datblygu yn fwy manwl.

Camau a gytunwyd

- Alwen i drefnu cyfarfod pellach tua canol/diwedd mis Mehefin i ail-ymgysylltu ar ôl i Lywodraeth Cymru gael ei sefydlu o'r newydd
- Awgrymwyd, yn y cyfamser, y byddai'r holl Gylch Gorchwyl ar gyfer yr is-grŵp Trafnidiaeth yn cael ei ailystyried, gan ystyried ei briodoldeb/addasrwydd
- Yr is-fwrdd trafndiaeth i gael gwahoddiad i gyflwyno diweddariad o'i waith i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. (awgrymir gwneud hyn ddwywaith y flwyddyn)

Yn ychwanegol i'r nodiadau cryno uchod, isod gweler fy mod wedi cynnwys ychydig o baragraffau, a baratowyd gan Iwan Prys Jones, i roi mewnbwn i'r adroddiad blynyddol yr ydym wrthi'n ei gynhyrchu ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed yn y 12 mis diwethaf gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a phartneriaid ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Y Rhaglen Trafnidiaeth

Mae cael rhwydweithiau trafndiaeth effeithiol a dibynadwy sy'n cysylltu'r Gogledd â marchnadoedd a chyrchfannau allweddol yn hanfodol i gefnogi economi sy'n ffynnu. Sefydlodd y Bwrdd Uchelgais Is-fwrdd Trafnidiaeth i gefnogi a blaenoriaethu buddsoddiad yn ein rhwydweithiau trafndiaeth a gweithio ledled y rhanbarth i gyflawni gwelliannau. Mae'r ffocws cynyddol ar ddiogelu ein hamgylchedd wedi cynyddu'r angen i ddarparu dewisiadau amgen gwirioneddol i drafndiaeth ffordd, yn cynnwys rhwydweithiau cludiant teithwyr gwell sy'n integreiddio'n iawn.


Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cefnogi Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru gyda datblygu pecyn trafndiaeth integredig wedi'i frandio fel Metro Gogledd Cymru. Mae rhai prosiectau cyffrous yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a fydd yn arwain at welliannau trawsffurfiol i

rwydweithiau rheilffordd a bysiau'r rhanbarth dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys gorsafoedd rheilffordd newydd a rhagor o gapasiti ar ein rhwydwaith rheilffordd, mae cynigion i integreiddio bysiau a rheilffordd ynghyd â theithio llesol ar waith, ynghyd â rhaglenni o ansawdd i gyflawni brandio, gwybodaeth a threfniadau tocynnau gwell. Y nod yw sicrhau bod dewisiadau amgen hyfyw i deithio mewn car ar gael i'r holl drigolion ac ymwelwyr.

Lawr yn llaw â gwelliannau i rwydweithiau trafndiaeth, mae datgarboneiddio rhwydweithiau trafndiaeth yn flaenoriaeth gynyddol. Mae paratoi'r rhanbarth ar gyfer cyflwyno cerbydau trydan heb allyriadau ar dipyn o gyflymder, gydag isadeiledd gwefru digonol, yn flaenoriaeth.

Mae'r Bwrdd Uchelgais hefyd wedi arwain ar ddatblygu hwb hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy, i gyd-fynd ag un arall sy'n cael ei ddatblygu yng Nghaergybi, a'r nod yw rhoi'r rhanbarth ar flaen y gad yng nghyd-destun cyflwyno technolegau cerbydau cell tanwydd a thanwydd hydrogen. Bydd achosion busnes i weithredu hyn yn cael eu cwblhau dros y flwyddyn nesaf.

Mae cyhoeddi Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru wedi'i diweddaru, yn gosod rhaglen uchelgeisiol o welliannau i rwydweithiau trafndiaeth, cynigion datgarboneiddio ac agenda heriol ar gyfer newid. Dros y flwyddyn nesaf, bydd gwaith yn dechrau ar ddiweddaru Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, mewn ymateb i'r agenda sydd wedi'i osod gan Llwybr Newydd.



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

DYDDIAD: 14 Mai 2021

Teitl: *Diweddariad Bysiau Rhanbarthol*

Awdur: Iwan Prys Jones – Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

1. Pwrpas yr Adroddiad

Rhoi cyflwyniad a diweddariad i Aelodau ar gynnydd Trafnidiaeth Cymru ar waith sy'n cael ei wneud ar Adolygiad Rhwydwaith Bws Cenedlaethol Cymru. Bydd y cyflwyniad hefyd yn tynnu sylw at sut mae hyn yn cefnogi gwaith ar y Cynllun Argyfwng Bws yng Nghymru

2. Y Penderfyniad a Geisir

Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r diweddariad a'r cynigion ar gyfer y gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio.

Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i ddatblygu cynllun gweithredol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth arfaethedig ar gyfer y rhwydwaith, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i swyddogaeth yr Is-fwrdd Cyflawni mewn perthynas â'r gwaith parhaus.

3. Rhesymau dros y Penderfyniad

Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn bennaf, i gynghori'r aelodau ar y cynnydd a wnaed gyda'r Adolygiad Rhwydwaith, y canfyddiadau a'r deilliannau cychwynnol, a'r camau nesaf arfaethedig

Nid oes angen penderfyniad ffurfiol o ganlyniad i'r adroddiad, fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen ystyriaeth bellach i rai o'r cynigion newydd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun ymhen amser.

4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

Mae'r aelodau wedi derbyn adroddiadau mewn cyfarfodydd diweddar ynghylch y newidiadau arfaethedig i reolaeth a chyllid y rhwydwaith bysiau, yn bennaf yn ymwneud ag effeithiau'r gostyngiad mewn defnydd o fysiau o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Fe gofia'r aelodau hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi dymuno gallu bod mewn gwell rheolaeth dros ansawdd y rhwydweithiau bysiau a'r ddarpariaeth gwasanaeth ers tro. Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio drwy Trafnidiaeth Cymru, wedi cynnal adolygiad arwyddocaol o rwydweithiau a threfniadau rheoli presennol gyda gwaith manwl yn cael ei wneud gan Arup ac Atkins. Cynhaliwyd trafodaethau manwl gydag awdurdodau lleol drwy ATCO

Bydd aelodau'n cael cyflwyniad ar y gwaith a wnaed hyd yma a'r cynigion sydd ar y gorwel. Bydd y cyflwyniad hefyd yn ystyried y camau nesaf sydd wedi'u cynllunio a'r amserlen ar gyfer gwaith pellach a datblygiad cynllun gweithredu a phrosiectau cyflawni peilot posib.

5. Ystyriaethau

Bydd gan y cynigion am drefniadau rheoli mwy effeithiol effeithiau ar lywodraethu a rheoli rhwydweithiau bysiau yn y Gogledd. Er bod peth cydlynu rhanbarthol o gynlluniau ariannu bysiau, gyda Sir y Fflint yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol, mae pob awdurdod lleol yn caffael gwasanaethau bysiau yn annibynnol ar hyn o bryd.

Bydd cyflwyno'r cynigion rhwydwaith arfaethedig yn cynnwys newidiadau i drefniadau llywodraethu presennol mewn perthynas â chyllido a chaffael gwasanaethau bws.

5. Goblygiadau Ariannol

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol penodol o'r adroddiad hwn; gwybodaeth am waith sydd wedi cael ei wneud i ystyried cynigion i wella'r rhwydweithiau bws yng Nghymru ydyw yn bennaf.

Mae'n ddigon posib y bydd effeithiau'r cynigion hyn, wedi iddynt gael eu mabwysiadu, yn cael effeithiau ariannol arwyddocaol; fodd bynnag, tynnir sylw at y rhain mewn adroddiadau diweddar yn y dyfodol neu yn ystod yr ymgynghoriad y dylid ei gynnal cyn gweithredu.

6. Goblygiadau Cyfreithiol

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o'r adroddiad hwn. Bydd angen ystyried trefniadau rheoli a llywodraethu ar gyfer cyflawni'r cynllun BES 2.

7. Goblygiadau Staffio

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio penodol ar y cam hwn – mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'n debygol y gall unrhyw ddulliau cytûn i reoli cyllid neu rwydweithiau bysiau ar sail ranbarthol gael goblygiadau ar staffio o fewn timau bysiau presennol.

8. Effaith ar Gydraddoldeb

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn – mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

Nid oes angen unrhyw ymgynghori penodol ar y cam hwn – mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro – corff atebol:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

ii. Pennaeth Cyllid – corff atebol:

Nodaf y posibilrwydd o effaith ariannol sylweddol wrth fabwysiadu'r cynigion, a bydd angen sicrhau cadarnhad o'r ffynonellau ariannu (pe bai angen cyfraniadau ychwanegol gan unrhyw bartneriaid) cyn ystyried penderfyniad terfynol ar y ffordd ymlaen mewn cyfarfodydd dilynol.



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

DYDDIAD: 14 Mai 2021

Teitl: *Metro Gogledd Cymru – Diweddariad*

Awdur: Iwan Prys Jones – Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

1. Pwrpas yr Adroddiad

Rhoi cyflwyniad a diweddariad i Aelodau ar gynnydd Trafnidiaeth Cymru ar waith sy'n cael ei wneud ar brosiectau o fewn Metro Gogledd Cymru.

2. Y Penderfyniad a Geisir

Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r diweddariad a'r cynigion ar gyfer y gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio.

3. Rhesymau dros y Penderfyniad

Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn bennaf, i gynghori'r aelodau am gynnydd ar Fetro Gogledd Cymru, datblygiad y strategaeth, y prosiectau sydd wedi'u cynllunio i gael eu cyflwyno yn 2021-2 a'r gwaith mwy hirdymor sy'n cael ei ddatblygu.

Nid oes angen penderfyniad ffurfiol o ganlyniad i'r adroddiad.

4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

Mae aelodau wedi derbyn adroddiadau ar gynnydd gyda'r Metro mewn cyfarfodydd blaenorol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gyflymu'r gwaith o gyflawni'r rhaglen a'r prosiectau sydd wedi'u hadnabod o fewn y cysyniad Metro cyffredinol.

Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch dros y flwyddyn a fu, gydag adnoddau ychwanegol yn cael eu dyrannu a chynnydd da'n cael ei wneud ar gyflawni'r prosiect. Pur anaml y gellir cyflawni prosiectau trafndiaeth yn hawdd neu'n gyflym, ac mae'n ddefnyddiol i Aelodau ddeall y cynnydd sydd wedi cael ei wneud a'r amserlenni tebygol ar gyfer gweithredu.

Mae'r Metro yn dod ag amrediad o brosiectau ynghyd ar rwydwaith rheilffordd, rhwydwaith bws a chynlluniau teithio llesol y rhanbarth, er mwyn gwella'r integreiddiad rhwng y gwahanol ddulliau trafndiaeth. Mae pwyntiau cyfnewid ar y rhwydwaith a thocynnau, brandio a marchnata integredig oll wrthi'n cael eu datblygu.

5. Ystyriaethau

Mae gwella cysylltedd yn rhaglen hanfodol i gefnogi twf economaidd yng Ngogledd Cymru. Mae'r tagfeydd cynyddol ar ein rhwydweithiau ffordd allweddol a natur ddarniog llawer o'r seilwaith trafndiaeth a gwasanaethau teithwyr yn golygu nad oes llawer o ddewis ar gael o ran teithio ac eithrio defnyddio car preifat neu'r ffordd. Bwriedir i'r Metro fod yn brosiect hirdymor sy'n rhoi gwell dewis amgen a chefnogi gwell cysylltedd yn y rhanbarth ac i farchnadoedd a chyrchfannau cyfagos.

Bydd y gwaith o gyflawni'r cynigion ar gyfer y Metro yn rhaglen ar y cyd; bydd angen i swyddogaeth awdurdodau lleol wrth weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru esblygu wrth i'r rhaglen fwrw yn ei blaen.

5. Goblygiadau Ariannol

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol penodol o'r adroddiad hwn; gwybodaeth am waith sydd wedi cael ei wneud i ystyried cynigion i wella trafndiaeth integredig a mynediad yng Ngogledd Cymru ydyw yn bennaf.

6. Goblygiadau Cyfreithiol

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o'r adroddiad hwn.

7. Goblygiadau Staffio

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio penodol ar y cam hwn – mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

8. Effaith ar Gydraddoldeb

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn – mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

Nid oes angen unrhyw ymgynghori penodol ar y cam hwn – mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro – corff atebol:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

ii. Pennaeth Cyllid – corff atebol:

Deallaf fod yr adroddiad cynnydd hwn gerbron er gwybodaeth, felly does gen i ddim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

DYDDIAD: 14 Mai 2021

Teitl: *Diweddariad Datgarboneiddio Trafnidiaeth a Hwb Hydrogen*
Awdur: Iwan Prys Jones - Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

1. Pwrpas yr Adroddiad

Diweddarau'r Aelodau ar y cynnydd gyda datblygu cynigion prosiect ar gyfer prosiectau trafndiaeth carbon isel a di-garbon yn y Gogledd.

2. Y Penderfyniad a Geisir

Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r cynnydd a wnaed a'r camau nesaf i ddatblygu achosion busnes ar gyfer buddsoddi.

3. Rhesymau yn cefnogi'r angen am benderfyniad.

Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn bennaf, i gynghori'r aelodau am ddatblygiadau gyda datblygu isadeiledd a phrosiect i gefnogi trafndiaeth carbon isel a di-garbon.

Nid oes angen penderfyniad ffurfiol o ganlyniad i'r adroddiad.

4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

Yng nghyfarfod yr Is-fwrdd Cyflawni ym mis Rhagfyr 2020, derbyniodd Aelodau adroddiad ar gynigion i ddatblygu prosiectau uchelgeisiol i gefnogi datgarboneiddio rhwydweithiau trafndiaeth yng ngogledd Cymru. Amlygwyd dau brosiect a fyddai'n addas o bosib fel lleoliadau hwb: Caergybi a Glannau Dyfrdwy.

Ers yr adroddiad diwethaf, llwyddwyd i wneud cynnydd da ac mae gwaith manwl i ddatblygu achosion busnes i'r ddau brosiect ar y gweill. Hefyd, comisiynwyd gwaith pellach i ddeall yn well sut allai'r rhanbarth cyfan elwa o'r cyfleoedd a mynediad diogel i ffynonellau tanwydd hydrogen gwyrdd i gefnogi datgarboneiddio fflyd.

Glannau Dyfrdwy

Mae prosiect Glannau Dyfrdwy yn cynnig datblygu hwb hydrogen ym mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, a fyddai'n defnyddio ynni adnewyddadwy i ddatblygu hydrogen gwyrdd i gefnogi datgarboneiddio trafndiaeth. Mae cerbydau Celloedd Tanwydd Hydrogen angen hydrogen o ansawdd uchel er mwyn osgoi halogiad celloedd tanwydd ac mae hydrogen gwyrdd yn ddelfrydol ar gyfer y diben hwn. Amlinelliad y prosiect yw y byddai'r hwb yn cynnwys cyfleusterau cynhyrchu hydrogen, ynghyd â storfa ac offer darparu tanwydd.

Elfen allweddol o'r prosiect yw asesu'r galw posib yn y dyfodol am y tanwydd ac, yn benodol, asesu'r farchnad bosib am hydrogen ar gyfer cerbydau celloedd tanwydd. Mae dadansoddiad manwl o'r galw posib yn y dyfodol wedi cael ei gynnal gyda defnyddwyr posib, a chynhaliwyd trafodaethau gyda gwneuthurwyr cerbydau a defnyddwyr fflyd er mwyn asesu'r galw posib.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-21, roedd cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y prosiect ac i ddatblygu'r AAS yn Achos Busnes Amlinellol. Mae'r gwaith wedi symud ymlaen yn dda a phenodwyd Jacobs gan Sir y Fflint i wneud y ddau gomisiwn. Derbyniwyd AAS drafft ac mae'r ABA bellach yn dod yn ei flaen yn dda.

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd yr ABA yn destun adolygiad Gateway cyn mynd ymlaen at ddatblygu Achos Busnes Llawn.

Cyfleoedd Hydrogen Rhanbarthol

Ar gyfer y ddau brosiect uchod, bydd tyfu'r galw am yr hydrogen a gynhyrchir yn hanfodol fel rhan o ecosystem newydd ar gyfer hydrogen ar draws y rhanbarth. Bydd angen mwy o gyfleoedd cynhyrchu, isadeiledd storio, dosbarthu a lleoliadau cyflenwi tanwydd.

Bydd gofyn tyfu'r galw am y tanwydd, yn enwedig os mai un o'r prif ddefnyddiau fydd cefnogi datgarboneiddio trafndiaeth. Mae Caergybi a Glannau Dyfrdwy mewn lle da i ddarparu tanwydd i rannau o'r rhwydwaith trafndiaeth strategol ac i ddarparu tanwydd carbon isel i ddefnyddwyr masnachol a busnes eraill.

Mae gan y sector cyhoeddus yng Nghymru rôl allweddol i'w chwarae o ran dangos arweinyddiaeth mewn ymdrechion datgarboneiddio; er enghraifft, drwy drawsnewid fflydoedd sector cyhoeddus o danwydd petrol / disel i ddatrysiadau carbon isel / di-garbon a datrysiadau heb allyriadau o'r bibell fwg. Bu ffocws cryf ar gerbydau trydan batri yn y blynyddoedd diweddar ac mae'r dechnoleg hon yn cynnig datrysiad gwych ar gyfer sawl math o gerbydau a chylchoedd rhedeg. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y dechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd, nid yw datrysiadau trydan batri pur yn debygol o allu diwallu anghenion pob cerbyd. Mae celloedd tanwydd hydrogen yn cynnig datrysiad addawol ar gyfer cerbydau trymach a cherbydau â chylchoedd rhedeg heriol (e.e. milltired dyddiol uchel / galw uchel ar ynni bob dydd) megis cerbydau casglu gwastraff. Mae argaeledd datrysiadau addas yn y maes hwn wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd ac mae caffael ar y cyd ar draws sawl corff cyhoeddus yn cynnig y posibilrwydd i rannu'r galw, denu cyflenwyr cerbydau, a gwella'r achos masnachol o bosib am yr isadeiledd ail-lenwi â thanwydd hydrogen sydd ei angen.

Er mwyn asesu opsiynau ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol, roedd cyllid ar gael i ariannu comisiwn bach pellach gan Element Energy i ystyried sut y gellir adnabod cyfleoedd o'r fath.

Mae'r gwaith yn mynd yn dda ar hyn o bryd ac yn ystyried y meysydd gweithgarwch a ganlyn:

- Asesiad o'r galw yn y dyfodol
- Ymgysylltu gyda chyflenwyr cerbydau trydan celloedd tanwydd posib
- Dadansoddiad cost cynhyrchu a dosbarthu hydrogen
- Lleoli gorsaf llenwi â thanwydd hydrogen

Bydd adroddiad drafft ar gael yn fuan a chynhelir trafodaethau am y camau nesaf.

5. Ystyriaethau

Mae datgarboneiddio trafniadaeth yn ofyniad allweddol ym mholisi Llywodraeth Cymru a San Steffan. Bydd gwerthiant cerbydau gyda thanwydd carbon yn cael ei gyfyngu dros y blynyddoedd nesaf ac er bod technolegau batri wedi'u datblygu'n gyflym, ni fydd datrysiadau batri yn unig yn addas i gerbydau trymach. Mae'r achos am ymyrraeth strategol mewn isadeiledd darparu tanwydd amgen yn glir ond mae angen camau gweithredu cydlynol gan y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau bod isadeiledd digonol yn ei le i gefnogi technolegau hydrogen ac eraill.

Mae'r cyllid a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi i brosiectau symud ymlaen yng Nghaerdydd a Glannau Dyfrdwy; a hefyd, i ystyried ei roi ar waith ymhellach yn y dyfodol ar draws y

rhanbarth. Ar ôl gorffen datblygu'r achos busnes cychwynnol, bydd angen gweithio ar achos busnes llawn a strategaethau gweithredu a chyflawni.

Darperir adroddiadau diweddarau pellach i aelodau wrth i'r prosiectau ddatblygu.

5. Goblygiadau Ariannol

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol penodol o'r adroddiad hwn; gwybodaeth am waith sydd wedi cael ei wneud i ystyried cynigion i ddatgarboneiddio trafndiaeth yng ngogledd Cymru ydyw yn bennaf.

6. Goblygiadau Cyfreithiol

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o'r adroddiad hwn.

7. Goblygiadau Staffio

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

8. Effaith ar Gydraddoldeb

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

Nid oes angen unrhyw ymgynghori penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - corff atebol:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. **Pennaeth Cyllid - corff atebol:**

Deallaf fod yr adroddiad cynnydd hwn gerbron er gwybodaeth, felly does gen i ddim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

26/04/2021

Teitl: *Hwb Hydrogen Caergybi: Trosolwg o'r Prosiect a'r Camau Nesaf*
Awdur: Dylan Llewelyn Jones (Uwch Beiriannydd – Trafnidiaeth Gynaliadwy a Strategol)
/ Huw M. Percy (Pennaeth Gwasanaeth – Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff)

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Darparu trosolwg o brosiect Hwb Hydrogen Caergybi o ran y cynnydd hyd yma ac amlinellu'r camau nesaf yn natblygiad y prosiect.

2. Y Penderfyniad a Geisir

2.1 Paratoir yr adroddiad hwn fel diweddariad i Is-grŵp Cyflawni Trafnidiaeth, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac er dibenion gwybodaeth. Nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am benderfyniad ar hyn o bryd.

3. Rhesymau yn cefnogi'r angen am benderfyniad.

Amh.


4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

4.1 Mae'r prosiect yn y camau datblygu ar gyfer ffatri cynhyrchu hydrogen a hwb darparu/dosbarthu tanwydd posib yng Nghaergybi. Gallai'r prosiect gyfrannu o bosib at ddatgarboneiddio'r sector trafndiaeth ar raddfa yng Nghaergybi (mae Parc Cybi wedi'i adnabod fel y safle dewisol), ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru.

4.2 Byddai Hydrogen Gwyrdd yn cael ei gynhyrchu yn defnyddio'r adnoddau adnewyddadwy sylweddol sydd gan yr Ynys ar y môr, yn adnoddau llanwol a gwynt. Hefyd, ynghyd â'r galw ym Mhorthladd Caergybi, fflyd CSYM, cwmnïau HGV a bysiau lleol, mae'n darparu digon o alw i ddechrau'r prosiect a datblygu cyfleoedd cadwyn gyflenwi yn lleol.

- 4.3 Gyda dyddiad targed gweithredol o ddechrau 2023, dyma brosiect 'Cyntaf o'i fath' yng Nghymru dan fodel prif ganolfan a lloerennau (Gweler Ffigwr 1) a bydd yn cydweithio â datblygiadau cyflenwol yng ngogledd Cymru (Hwb Hydrogen Glannau Dyfrdwy - Sir y Fflint), gweddill Cymru a'r DU ac yn cysylltu ag Iwerddon.

Ffigwr 1.0 - Y Model Prif Ganolfan a Lloerennau Arfaethedig



- 4.4 Gallai'r buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r prosiect fod yn sylweddol. Yn y cyfnod gweithredol, gallai Hwb Hydrogen cychwynnol arfaethedig Caergybi ddarparu buddion economaidd sylweddol o bosib gan gynnwys:
- Creu 20 swydd FTE yn uniongyrchol yn yr Hwb cychwynnol yn ogystal â 10 swydd ychwanegol yn ymwneud â chynnal a chadw cerbydau.
 - Cefnogi dros 500 o swyddi mewn busnesau lleol yn anuniongyrchol.
 - Rhoi llwyfan i gynhyrchiad hydrogen ar raddfa eang ar gyfer trafndiaeth ac arallgyfeirio i'r marchnadoedd gwresogi, pŵer, diwydiannol ac amaethyddol. Byddai hyn yn rhoi hwb i werth ychwanegol gros (GVA) ac yn darparu cyfleoedd am swyddi sylweddol, cynaliadwy fyddai'n gallu cael eu creu yn y gymuned leol.

Cynnydd Datblygiad y Prosiect Hyd Yma (Rhagfyr 2020 - Mawrth 2021)

- 4.5 Mae CSYM wedi partneru â Menter Môn (MM) i ddatblygu'r prosiect oherwydd ymglymiad blaenorol Menter Môn â'r maes hwn. Penodwyd Cyfarwyddwr Hydrogen gan Menter Môn ym mis Rhagfyr 2021 i arwain ar gyfnod datblygu'r prosiect.

- 4.6 Mae ymgynghorwyr allanol wedi cael eu penodi gan Menter Môn yn dilyn proses gaffael drwy GwerthwchiGymru i gynnal asesiadau manwl ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi yn seiliedig ar ganfyddiadau [astudiaeth dichonolrwydd cychwynnol](#) 2020.
- 4.7 Mae'r ymgynghorwyr yn gonsortiw m sy'n cael ei arwain gan Logan Energy, arbenigwr hydrogen a chwmmi cyfreithiol Capital Law. Erbyn mis Ebrill 2021, byddant yn darparu adroddiadau yn seiliedig ar 5 lot wedi'u tendro:
- Datblygu Busnes gan gynnwys costau a chyflenwyr cerbydau posib
 - Dylunio a Pheirianneg
 - Cyngor Cynllunio
 - Asesiadau Effaith Amgylcheddol
 - Cyngor Cyfreithiol
- 4.8 Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda swyddogion trafndiaeth CSYM fel rhai fydd yn defnyddio'r hydrogen o bosib yn y pen draw, ynghyd â Stena ym Mhorthladd Caergybi, gweithredwyr HGV lleol, Llywodraeth Cymru a defnyddwyr posib eraill yn y pen draw sy'n cael eu hadnabod fel rhan o'r gwaith datblygu ac a allai gyfrannu at ddylunio'r Hwb. Yn ychwanegol, mae gweithdai wedi cael eu cynnal gyda rhan-ddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys SP Energy Networks (Grid Trydanol), Coleg Menai (Sgiliau a Hyfforddiant), M-Sparc (Ymchwil a Datblygu) a Wales & West Utilities (Rhwydwaith nwy).
- 4.9 Mae datganiadau i'r wasg wedi denu sylw da a diddordeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r prosiect yn parhau i ddenu diddordeb allanol cynyddol gan bartneriaid cyflenwi newydd posib sy'n cynnwys busnesau lleol, Llywodraeth y DU, cyflenwyr technoleg a chorfforaethau aml-wladol.
- 4.10 Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda BUEGC ar y rhagolygon am ddull gweithredu cyd-gysylltiedig ar gyfer datblygiadau hydrogen ar draws gogledd Cymru a chysylltu â Sir y Fflint. Bydd hyn yn cael ei adolygu a'i fonitro wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

5. **Goblygiadau Ariannol**

- 5.1 Mewn partneriaeth gyda Menter Môn, diogelodd CSYM £105,000 o arian grant gan Gronfa Trafnidiaeth Leol, Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020 ar gyfer gweithgarwch cynnar i ddatblygu'r prosiect.
- 5.2 Mae £225,000 ychwanegol wedi'i ddiogelu yn 2021/22 er mwyn gwneud y gweithgarwch isod:
- Mireinio a gwneud y gorau o ganlyniadau'r gwaith datblygu presennol;
 - Asesu'r cyfleoedd uwchraddio ac arallgyfeirio sy'n ymestyn i gynhyrchu hydrogen ar raddfa fawr o adnoddau adnewyddadwy ar y môr;
 - Paratoi asesiad economaidd-gymdeithasol llawn o'r posibilrwydd i uwchraddio, gan gynnwys y sgôp ar gyfer cefnogi'r Porthladd yn ei uchelgais am adnoddau adnewyddadwy ac ehangu;

- d) Paratoi a chyflwyno cais cynllunio ar gyfer y ffatri cynhyrchu hydrogen;
 - e) Cysylltu'r Hwb ymhellach gyda datblygiadau cyflenwol yng ngogledd Cymru gan gynnwys Hwb Hydrogen Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint ac ymestyn hefyd i Loegr a thua'r gorllewin i Iwerddon;
 - f) Mireinio'r achos busnes i gynnwys archwilio cyfleoedd datblygu busnes pellach gyda sefydliadau allanol.
- 5.3 Petai'r prosiect yn llwyddo i sicrhau'r caniatâd cynllunio angenrheidiol (heb ragfarnu'r broses wneud penderfyniadau), bydd gweithgareddau'n cael eu trefnu at baratodau ar gyfer adeiladu ac agor yr Hwb ac asesu'r cyfleoedd uwchraddio.
- 5.4 Yng nghyhoeddiad Cyllideb 2021, cyhoeddodd y Canghellor £4.8m o gyllid tuag at ddatblygu Hwb Hydrogen Caergybi; fodd bynnag, mae gwybodaeth bellach wedi bod yn brin hyd yma. Bydd y cyllid yn dibynnu ar brofi a chymeradwyo'r achos busnes.
- 5.5 Bydd astudiaethau presennol yn cynghori ar amcangyfrifon cost ac opsiynau mwy manwl ar gyfer y cam gweithredol.
- 6. Goblygiadau Cyfreithiol**
- 6.1 Mae cytundeb cyfreithiol ffurfiol wedi cael ei sefydlu rhwng CSYM a Menter Môn, ac mae wedi cael ei lofnodi gan y ddau barti a'i selio. Roedd CSYM a Menter Môn yn fodlon ymrwymo i'r cytundeb hwn.
- 6.2 Pwrpas y Cytundeb hwn yw gwneud Menter Môn yn ymwybodol o Amodau'r Grant ac i osod ymrwymiad arnynt i gydymffurfio ag Amodau'r Grant. Mae'r partïon yn ymrwymo i'r cytundeb hwn er diben darparu prosiect Hwb Hydrogen Caergybi fel y nodir yng Nghronfa Trafnidiaeth Lleol Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn rhoi sicrwydd bod CSYM wedi sicrhau na chyfyd unrhyw risg ariannol o'r penderfyniad hwn.
- 7. Goblygiadau Staffio**
- 7.1 Penodwyd Cyfarwyddwr Hydrogen gan Menter Môn ym mis Rhagfyr 2020 i arwain ar gyfnod datblygu'r prosiect.
- 7.2 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw oblygiadau staffio; mae CSYM yn rheoli'r prosiect a'r gwariant grant drwy ddefnyddio adnoddau staffio presennol.
- 7.3 Mae Bwrdd Prosiect wedi cael ei sefydlu rhwng CSYM (cynrychiolwyr o Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) a Menter Môn i sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau'r grant, i fonitro cynnydd a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi.
- 8. Effaith ar Gydraddoldeb**
- 8.1 Ystyrir Asesiad Effaith Cydraddoldeb wrth i'r gweithgarwch datblygu prosiect barhau.

9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

9.1 Mae ymgynghoriadau helaeth wedi cael eu cynnal ac ar y gweill gyda rhan-ddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- CSYM ar ragolygon datgarboneiddio trafndiaeth, lleihau llygredd aer a chefnogi'r economi lleol;
- Grŵp Llandrillo Menai (Coleg Menai) o ran y cyfleoedd hyfforddiant a sgiliau;
- M-Sparc, hwb gwyddoniaeth ac arloesedd Prifysgol Bangor ar y cyfleoedd Ymchwil a Datblygu;
- SP Energy Networks ar yr hyblygrwydd y gallai cynhyrchu hydrogen ei ddarparu i'w gweithrediadau drwy eu rhaglen Rheoli Rhwydwaith Actif;
- Wales & West Utilities ar bosibilrwydd cyfuno sectorau gyda'r rhwydwaith nwy er mwyn datgarboneiddio gwres.

9.2 Cryfheir yr elfen leol hon ymhellach gan yr awydd a ddengys gan fusnesau Stena Group, Delivery Solutions a Gwynedd Shipping ar gyfer cyflwyno cerbydau hydrogen i'w fflydoedd HGV, gweithrediadau porthladd ac uwchraddio i ddefnyddiau posib ar longau.

9.3 Yn ogystal, ymgysylltwyd gyda Llywodraeth Cymru, cymdeithasau tai, Faun Trackway a defnyddwyr posib eraill yn y pen draw sy'n cael eu hadnabod fel rhan o'r gwaith datblygu a allai gyfrannu at ddylunio'r Hwb - ac a allai hefyd elwa o'r Lloerennau.

10. Atodiad

[Astudiaeth Dichonoldeb Hwb Hydrogen Caergybi \(Crynodeb\) - Mehefin 2020](#)

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro - corff atebol:**

Mae'r adroddiad ar gyfer gwybodaeth ar y prosiect yn unig. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol amlwg o safbwynt gwaith yr Is Fwrdd

ii. **Pennaeth Cyllid - corff atebol:**

Deallaf fod yr adroddiad cynnydd hwn gerbron er gwybodaeth, felly does gen i ddim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

